**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG-2928-17

Aelodau'r Cynulliad

5 Medi 2017

Annwyl Gyfaill

Yn y Datganiad Busnes ar 27 Mehefin, cytunodd Arweinydd y Tŷ y byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad am bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chlefyd niwronau motor ers dadl fer Nick Ramsay ym mis Gorffennaf 2014.

Mae'r byrddau iechyd yn gyfrifol am gynllunio, sicrhau a darparu gofal o ansawdd uchel i gleifion sydd â chyflyrau niwrolegol a/neu gyflyrau prin, megis clefyd niwronau motor.

Cyflwr niwro-ddirywiol cymharol brin sy'n effeithio ar ryw 250 o bobl sy'n byw yng Nghymru yw Clefyd Niwronau Motor. Mae dau berson ym mhob 1000,000 yn debygol o ddatblygu'r clefyd yn ystod eu hoes.

Efallai y bydd gan bobl â chyflyrau niwrolegol anghenion corfforol, seicolegol a chymdeithasol sy'n effeithio ar eu gallu i weithredu. Mae ar bobl angen cefnogaeth eang i sicrhau'r canlyniad gorau, a'r ansawdd bywyd gorau posibl. Gwaith heriol ac amlweddog yw gwella gwasanaethau i bobl sy'n byw â chyflwr niwrolegol.

Caiff pobl â chlefyd niwronau motor eu cwmpasu gan fwy nag un cynllun cyflawni iechyd - y rhai ar gyflyrau niwrolegol, gofal diwedd oes a chyflyrau prin. Cafodd y Cynllun Cyflawni wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol ei gyhoeddi ar 27 Gorffennaf 2017. Roedd y cynllun, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2014, yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol, gan sicrhau bod cleifion yn cael diagnosis cyflym, gofal effeithiol amserol, a chymorth i'w helpu i fyw gyda'u cyflwr. Roedd y cynllun hefyd yn anelu at wella'r wybodaeth sydd ar gael am gyflyrau niwrolegol a thriniaeth; yn ogystal â helpu â gwaith ymchwil i'r achosion a'r driniaeth.

Mae'r cynllun newydd yn llywio gwaith y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol, sy'n caei ei gadeirio gan Alison Shakeshaft, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'n  adeiladu ar y cynllun blaenorol i wireddu'r weledigaeth o wella gwasanaethau niwrolegol ledled Cymru yn fwy effeithiol ac yn gyflymach, a hynny ochr yn ochr â gweledigaeth leol y byrddau iechyd ar gyfer trigolion eu hardal a ddisgrifir yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae cydweithio rhwng y Grŵp Gweithredu, cyrff y GIG,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid y trydydd sector yn hanfodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth a lleihau amrywioldeb gwasanaethau.

Rydym wedi ymrwymo i adrodd yn dryloyw ar gynnydd yn erbyn y cynllun ac fe gyhoeddwyd y datganiad blynyddol diwethaf o gynnydd ym mis Mawrth. Mae'r cynllun a'r datganiad blynyddol o gynnydd i'w gweld yma:
http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/care/?lang=en

Yn 2016, dechreuodd y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol weithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc i ddatblygu Mesurau priodol ar gyfer Profiadau a Hysbyswyd gan Gleifion (PREMS) a Mesurau Canlyniadau a Hysbyswyd gan Gleifion (PROMs) ar gyfer strôc a chyflyrau niwrolegol. Mae'r Grwpiau hefyd wedi darparu cyllid ar y cyd o £1.2m i ehangu gwasanaethau niwro-adsefydlu ledled Cymru i feithrin gallu ar draws y gweithlu adsefydlu niwrolegol. Oherwydd y synergedd rhwng y grwpiau, maent wedi penodi cydgysylltydd i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymyriadau a gwasanaethau lleol sydd wedi'u seilio o gwmpas amhariadau cyffredin strôc ac anhwylderau niwrolegol.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol wedi nodi nifer o flaenoriaethau ar gyfer 2017-18:

- Datblygu dull cydgynhyrchiol o gynyddu ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol.
- Darparu gwybodaeth glir a chyson am gleifion
- Darparu mynediad at wasanaethau niwrolegol, i gleifion o bob oed, yn gyson ledled Cymru.
- Darparu gwasanaethau adsefydlu niwrolegol, i gleifion o bob oed
- datblygu ac ymateb i brofiadau cleifion a mesurau canlyniadau

Cafodd y Cynllun Cyflawni wedi’i ddiweddaru ar gyfer Clefydau Prin ei gyhoeddi ar 26 Gorffennaf 2017. Mae'n ailddatgan yr ymrwymiadau i rymuso'r rhai sydd â chlefyd prin ac i sicrhau bod y rhai sydd â chlefydau prin yn cael mynediad amserol i lwybrau gofal o ansawdd uchel. Arweinir y cynllun gan y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Prin, o dan gadeiryddiaeth Graham Shortland, Cyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Gyflyrau Prin i'w weld yn:
http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/rare/?lang=en.

Ei flaenoriaethau penodol ar gyfer 2017-18 yw:

- Nodi'r llwybr cymorth i gleifion sydd â diagnosis anhysbys;
- Creu a sicrhau defnydd gwell o arferion gorau a thystiolaeth mewn gofal sylfaenol ac eilaidd a gwella llwybrau ar gyfer cael mynediad i wasanaethau arbenigol;
- Cynnal dadansoddiad manwl o ddigwyddiadau gan gynnwys oedi wrth roi diagnosis o glefyd prin a dysgu tystiolaeth ar y cyd;
- Sicrhau bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wella llwybrau clefydau prin mewn byrddau iechyd.

Mae'r cynlluniau gweithredu ar gyfer cyflyrau niwrolegol a chlefydau prin yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer gofal effeithiol yn achos pobl â chyflwr niwrolegol neu gyflwr prin. Mae’r rhain yn cynnwys canllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), llwybrau gofal a dogfennau eraill megis safonau proffesiynol. Dylai Gwasanaethau gael eu datblygu a'u darparu yn unol â'r canllawiau perthnasol ar gyfer y cyflyrau hynny, lle maent yn gymwys, ond mae'r ystod eang o gyflyrau niwrolegol yn golygu na fydd gan rai ohonynt ganllawiau penodol i'r clefyd. Cyhoeddwyd canllawiau NICE ar gyfer asesu a rheoli clefyd niwronau motor yn Chwefror 2016.

Dylai pobl sydd yng nghyfnodau olaf clefyd niwronau motor gael eu cefnogi trwy gael trafodaethau cynnar ynghylch eu gofal diwedd oes, os yw'n briodol. Mae angen i unigolion, a'r rhai sy'n bwysig iddynt, allu cael trafodaethau cynnar a thryloyw ynghylch cynlluniau personol sy'n hwyluso ymagwedd gyfannol at hyrwyddo eu dewisiadau o driniaeth, gofal a chymorth; yn unol â'r *Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes*.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport